

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: S. Jones (Ymgeisydd – Cyngor Bro Morgannwg), P. Hill (Plaid â Diddordeb), S. McCarthy (Awdurdod Cyfrifol; Heddlu De Cymru), Swyddog Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (Cyngor Bro Morgannwg) a Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Craffu (Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

Dywedodd y swyddog hefyd fod copi o'r weithdrefn ar gyfer y cyfarfod ar gael i'r aelodau etholedig yn y papurau agenda a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod.

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd M.J.G. Morgan yn cael ei benodi'n Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Caniatáu Trwydded Safle – Pentref Canoloesol Cosmeston, Heol Larnog, Penarth, CF64 5UY –

Croesawodd y cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawriad yr is-bwyllgor a gwahoddodd bawb i gyflwyno eu hunain.

Cadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol gyda'r holl bartïon a oedd yn bresennol bod yr wybodaeth atodol a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru, ar ôl cyhoeddi papurau'r gwrandawriad ond cyn y gwrandawriad, wedi'i derbyn a'i darllen gan bob parti. Er budd personau eraill a oedd yn bresennol, dywedodd y Swyddog Cyfreithiol hefyd

fod y sylwadau a nodir yn ysgrifenedig yn Atodiad D i'r papurau yn cyfeirio'n unig at faterion fel y diffinnir yn adran 18 (6) o Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

"sylwadau sy'n ymwneud ag effaith debygol rhoi'r drwydded mangre ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed."

Gyda chytundeb yr holl bartïon, gwahoddodd y cadeirydd y Swyddog Trwyddedu wedyn i gyflwyno'r adroddiad, a dywedodd fod yr adroddiad i ystyried cais o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") am drwydded mangre ym Mhentref Canoloesol Cosmeston, Heol Larnog, Penarth, CF64 5UY, a gyflwynwyd gan yr Adran Twristiaeth a Digwyddiadau, Cyngor Bro Morgannwg.

Roedd y cais yn gofyn am awdurdodiad ar gyfer y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol: manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle a darparu adloniant rheoledig, o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 11am ac 11pm. Roedd y cais ar gyfer y gweithgaredd olaf yn cynnwys caniatâd i ddarparu perfformiadau o ddramâu, dangosiadau ffilmiau, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawn, ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg.

Roedd papurau'r gwrandawriad yn cynnwys adroddiad pwyllgor, y ffurflen gais gan yr ymgeisydd, dyfyniad o'r canllawiau statudol diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, fel ei bod yn ymwneud ag adloniant rheoledig, ynghyd â sylwadau gan awdurdod cyfrifol (Heddlu De Cymru) a phersonau eraill.

Hysbysebwyd y cais yn unol â'r rheoliadau a daeth y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i ben ar 19 Medi 2022. O dan Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Tystysgrifau Mangreoedd a Chlybiau) 2005, gall awdurdod cyfrifol neu unrhyw berson arall wneud sylwadau perthnasol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod. Nid oedd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u tynnu'n ôl ac felly, roedd angen gwrandawriad llawn.

Yn dilyn cyflwyniad yr adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu, gwahoddodd y cadeirydd Ms. Sarah Jones (yr ymgeisydd) i amlinellu'r rhesymau dros y cais, ynghyd â manylion ychwanegol, a nodwyd fel a ganlyn:

Gwnaed y cais gan dîm Twristiaeth a Digwyddiadau'r cyngor. Ar hyn o bryd, roedd gan y tîm drwyddedau mangre mewn lleoliadau lluosog ar draws Bro Morgannwg ac roedd ganddo brofiad sylweddol o drefnu digwyddiadau ar raddfa fawr mewn amrywiaeth o leoliadau. Roedd hyn yn cynnwys trefnu digwyddiadau a gwyliau awyr agored blynyddol a oedd wedi eu hen sefydlu, ac roedd y tîm wedi cynnal treial llwyddiannus o'r Wyl Calan Gaeaf yn 2021 ym Mhentref Canoloesol Cosmeston.

Roedd defnyddio trwyddedau mangre yn cynnig hyblygrwydd i'r cyngor gynnal digwyddiadau addas yn ôl yr angen, gyda'r caniatâd trwyddedu cywir eisoes ar waith. Roedd Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro, fel mesur amgen, yn cynnwys cyfyngiadau ar gapasiti a hyd y digwyddiadau.

Roedd yr holl ddigwyddiadau mewn perthynas â'r drwydded i'w cynnal naill ai gan y cyngor neu sefydliad partner, a byddai unrhyw sefydliadau allanol a oedd yn ymwneud â llogi'r lle wedi llofnodi cytundeb llogi ac wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb am faterion rheoleiddio perthnasol.

Cynorthwyodd Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau'r cyngor, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaeth tân, i sicrhau bod digwyddiadau'r cyngor yn rhedeg yn ddiogel a rhoddodd gyfle i'r heddlu godi unrhyw faterion oedd ganddynt ynghylch digwyddiadau penodol.

Dywedodd yr ymgeisydd, er ei bod wedi cytuno i nifer o amodau, ei bod wedi codi materion posibl gyda dau o'r pum amod yn y drwydded a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru, ac a amlinellwyd yn Atodiad C yr adroddiad, ynghylch gosod teledu cylch cyfyng a'r angen i oruchwyliwr safle dynodedig neu ddeiliad trwydded bersonol fod yn bresennol wrth werthu alcohol. Roedd gwrthwynebiadau'r ymgeisydd i'r amodau hyn fel a ganlyn:

- Mae'r tîm Twristiaeth a Digwyddiadau wedi rheoli nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys bariau trwyddedig, yn llwyddiannus ac yn ddiogel hyd yma, heb fod angen darparu teledu cylch cyfyng.
- Roedd bariau mewn digwyddiadau o'r fath yn tueddu i fod yn fariâu o 'ddull bwyd stryd' ar raddfa fach, ac roedd y mesurau a roddwyd ar waith fel mater o drefn i gwmpasu'r defnydd o'r rhain yn cynnwys presenoldeb staff diogelwch trwyddedig yn ystod oriau agor y bar, ardaloedd cyfyngedig ar gyfer gwerthu ac yfed alcohol, a pholisi 'herio - 25'.
- Roedd rhywfaint o deledu cylch cyfyng ar y safle yn barod, uwchben mynedfa lleoliad y digwyddiad, y gallai'r ymgeisydd ei ddefnyddio.
- Roedd mesurau rheoli ar waith ac roedd gan yr heddlu'r cyfle i wneud sylwadau ar y gwaith o reoli digwyddiad, neu i'w herio, drwy gyfarfodydd o'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau.
- Roedd tîm rheoli bob amser ar y safle yn ystod digwyddiadau'r cyngor, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn cynnwys deiliad trwydded mangre. Fodd bynnag, roedd cynnwys hyn fel amod o'r drwydded yn gyfyngol, gan ragweld unrhyw amgylchiadau annisgwyl posibl a olygai na allai deiliad y drwydded mangre fod yn bresennol ar fyr rybudd, ac felly, ni allai'r digwyddiad barhau.

Yn dilyn ymholiad gan y Cyngorydd Norman, rhoddodd yr ymgeisydd eglurhad pellach am ei rhesymau dros wrthwynebu'r amod ynghylch teledu cylch cyfyng ychwanegol, fel un sy'n ymwneud â llwyddiant digwyddiadau blaenorol hebdo, y gost gysylltiedig a chymhlethdod y broses o logi offer, ansawdd y ffilm a recordiwyd, a thrin y data a gesglir yn briodol. Ychwanegodd yr ymgeisydd fod hwn yn gyfyngol fel amod o'r drwydded, ond gellid dod â cheisiadau'r heddlu am deledu cylch cyfyng ychwanegol ar gyfer digwyddiadau penodol i'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau o dan y prosesau presennol er mwyn eu hystyried. Cytunodd yr ymgeisydd hefyd y gallai ystyried awgrym y Cyngorydd Norman o ddefnyddio uned teledu cylch cyfyng symudol y cyngor fel opsiwn dros dro.

Gan gyfeirio at y gwrthwynebiadau i'r cais yn ymwneud yn bennaf â phryderon sŵn, gofynnodd y cadeirydd a oedd yr ymgeisydd yn rhagweld y byddai trwydded yn achosi mwy o risg o sŵn nag oedd eisoes yn gysylltiedig â'r safle, a sut y gellid rheoli unrhyw faterion sŵn. Mewn ymateb, dywedodd yr ymgeisydd na fu unrhyw gwynion ynghylch sŵn sy'n ymwneud â Gŵyl Calan Gaeaf 2021, ond y bu un gŵyn ynghylch y Sinema Awyr Agored yn haf 2022. Eglurwyd bod yr ymgeisydd a'r trefnwyr wedi delio â hyn ar adeg y gŵyn, a bod y mater wedi'i ddatrys trwy symud y cyfarpar a gostwng lefelau'r sŵn. Ymgynghorwyd â thrigolion lleol y diwrnod canlynol a chanfuwyd nad oedd ganddynt unrhyw broblemau pellach ynghylch y digwyddiad. Ychwanegodd yr ymgeisydd fod y digwyddiad sinema awyr agored wedi rhedeg o dan drefniadau Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro, tra y byddai trwydded mangre wedi rhoi mwy o reolaeth i'r cyngor dros y digwyddiad, gan gynorthwyo ymhellach gyda'r mater sŵn.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan y Cyngorydd Drake ynghylch argaeledd cyfarpar diffibrilio ar y safle, dywedodd yr ymgeisydd ei bod ar ddeall bod hwn eisoes ar gael o fewn yr adeiladau cyhoeddus ar y safle pe bai angen, ond y byddai'n cadarnhau hyn gyda cheidwaid y parc a'r Gwasanaethau Cefn Gwlad. Ychwanegodd yr ymgeisydd y byddai'n rhaid i bob trefnydd digwyddiadau sicrhau bod darparwr cymorth cyntaf ar y safle ar gyfer y digwyddiad, gan gynnwys diffibriliwr, a bod y cyngor yn ymgynghori â Gwasanaeth Ambiwlans De Cymru ar y lefel addas o gymorth cyntaf i'w darparu.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cyngorydd Norman a'r Cyngorydd Drake, cadarnhaodd yr ymgeisydd mai dim ond yn ystod rhai digwyddiadau penodol y bwriadwyd gwerthu alcohol, ac na chaniateir dod ag alcohol i'r safle ac y byddai hyn yn cael ei orfodi gan dîm stiwardio mawr.

Yn dilyn cwestiynau'r cyngorwyr, gofynnodd Mr. Hill, fel y person arall oedd yn bresennol, pa ddarpariaethau oedd ar gael i ymdrin â materion sŵn yn effeithlon ac wrth iddynt ddigwydd yn ystod digwyddiadau. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Cyfreithiol y cysylltwyd â Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd mewn perthynas â'r cais hwn fel yr awdurdod priodol ar faterion yn ymwneud â sŵn, a phe bai ganddynt bryderon o'r fath, byddent wedi eu codi yn ystod y cyfnod ymgynghori perthnasol. Ychwanegwyd bod natur rhai gweithgareddau trwyddedadwy yn golygu na ellid eu gweithredu heb fod rhywfaint o sŵn yn cael ei greu. Dywedodd fod ystyried a oedd materion sŵn yn gyfystyr â niwsans statudol yn fater i Iechyd yr Amgylchedd ac y byddai'n seiliedig ar p'un a oedd effaith ddifrifol a materol ar fywydau beunyddiol y trigolion. Ychwanegodd y swyddog ymhellach nad oedd sŵn a achosir wrth i bobl adael digwyddiad yn weithgaredd trwyddedadwy, ond pe byddai busnes yn gweithredu y tu allan i'w oriau trwyddedig, byddai hyn yn gyfystyr â thorri amodau'r drwydded.

Cododd Mr. Hill wedyn y mater o anhrefn gyhoeddus fel ystyriaeth ar gyfer ceisiadau trwyddedu, a dywedodd y Swyddog Cyfreithiol fod hwn yn fater y gallai'r heddlu ei ddwyn ymlaen fel yr awdurdod cyfrifol, ac y byddent yn cyflwyno eu sylwadau yn ddiweddarach yn yr achos.

Mewn ymateb i gwestiwn Mr. Hill ynglŷn ag effaith digwyddiadau a sŵn ar yr amgylchedd lleol a bywyd gwylt, a cheisiadau eraill wedi cael eu gwrthod ar y sail

hon, pwysleisiodd yr ymgeisydd fod y cais ar gyfer digwyddiadau achlysurol yn gyfyngedig i ardal pentref canoloesol y parc gwledig, a bod y tîm Twristiaeth a Digwyddiadau'n gweithio'n agos gyda cheidwaid y parc a'r tîm Rheoli Cefn Gwlad, a fyddai'n rhoi cyngor ar ddigwyddiadau ac yn eu hatal rhag mynd yn eu blaenau pe baent yn rhagweld effaith negyddol ar amgylchedd y parc.

Cododd Mr. Hill y pwynt mai cais oedd hwn am drwydded barhaol i redeg digwyddiadau achlysurol yn unig, a bod hyn yn caniatáu i ddigwyddiadau amlach gael eu cynnal yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd yr ymgeisydd fod hwn i gynnig hyblygrwydd o ran amserlennu digwyddiadau ac effeithlonrwydd yn y broses o wneud cais am drwydded. Ychwanegwyd ymhellach fod niferoedd bychan o ddigwyddiadau blynyddol yn cael eu cynnal ar drwyddedau mangre eraill y cyngor, ac nad oedd cyllideb ddigonol ar gael i gynnal nifer fawr o ddigwyddiadau aml.

Holodd Mr. Hill a oedd y pentref canoloesol yn cael ei drwyddedu ar gyfer digwyddiadau priodas, a chadarnhaodd yr ymgeisydd fod y cais am drwydded, fel y gwnaed cais amdani, ar gyfer digwyddiadau a gynhelir gan y cyngor neu bartneriaid ac nad oedd yn cynnwys unrhyw seremonïau na digwyddiadau priodas. Ymhellach i hyn, ychwanegodd y Swyddog Cyfreithiol y gellid cynnal adolygiad o drwydded pe byddai'r gweithgareddau'n sylweddol wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn y cais, neu pe bai'r amcanion trwyddedu yn cael eu torri.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach i'r ymgeisydd, gwahoddodd y cadeirydd Heddlu De Cymru i wneud ei gynrychioliadau fel yr awdurdod cyfrifol. Dywedodd cynrychiolydd Heddlu De Cymru fod yr heddlu yn adolygu ceisiadau am drwyddedau ac yn cydweithio ag ymgeiswyr i drafod y cynlluniau ar gyfer gweithredu'r drwydded ac i lunio nifer o amodau priodol a chymesur. Dywedodd, er nad oedd Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu rhoi trwydded i'r ymgeisydd yn ei gyfanrwydd, eu bod yn gwrthwynebu'r drwydded ar ei ffurf bresennol. Tynnodd sylw'r pwyllgor at dudalen 17, adran M o'r cais, gan ddweud y byddent wedi croesawu mwy o bwyntiau o gyfiawnhad wedi'u cynnwys yma, o ran sut yr oedd yr ymgeisydd yn ceisio hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Dywedodd cynrychiolydd Heddlu De Cymru ei fod am i amodau teledu cylch cyfyng ychwanegol a deiliad trwydded bersonol neu oruchwyliwr safle dynodedig ar y safle gael eu cynnwys ar y drwydded am resymau y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Bod cael deiliad trwydded bersonol cymwys neu oruchwyliwr safle dynodedig ar y safle i gynnal yr amcanion trwyddedu, ac fel pwynt cyswllt ar gyfer yr heddlu, yn allweddol i gynnal digwyddiadau diogel, a phe bai'r aelod o staff hwnnw yn cael ei alw i ffwrdd mewn argyfwng, gellid delio â hyn pan fo angen.
- Roedd teledu cylch cyfyng yn ddull a ddefnyddiwyd yn helaeth i gynorthwyo gydag atal trosedd ac anhrefn, gyda hwn yn un o'r amcanion trwyddedu. Roedd yn cynnig ffynhonnell dda o wybodaeth ar gyfer ymchwiliadau'r heddlu, yn ogystal â gweithredu fel ataliad i ymddygiad troseddol. Byddai deddfwriaeth sydd ar ddod (Deddf 'Martyn') yn gosod dyletswydd ar safleoedd trwyddedig ac awdurdodau lleol i ddarparu teledu cylch cyfyng o fannau agored mawr megis parciau a chanolfannau digwyddiadau lle mae'r cyhoedd yn debygol o gasglu mewn niferoedd mawr, gyda'r bwriad o liniaru risgiau diogelwch posibl a rhai cysylltiedig â therfysgaeth.

- Roedd y teledu cylch cyfyng ychwanegol y gofynnwyd amdano wedi'i addasu i fod yn bwrpasol, yn briodol ac yn gymesur ar gyfer y cais am drwydded. Roedd y ddarpariaeth wedi'i lleihau i'r ardaloedd lle'r oedd gan y cyhoedd fynediad yn ystod digwyddiadau.
- Roedd angen gwirio'r teledu cylch cyfyng presennol ar y safle i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn hawdd ei gyrraedd.
- Dim ond y cyfle i Heddlu De Cymru gwestiynu agweddau ar ddigwyddiadau a gofyn am fesurau ychwanegol a gynigiodd fforwm y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau, ond nid y gallu i orfodi unrhyw fesurau.
- Ni soniodd Deddf Trwyddedu 2003 o gwbl am waharddiadau cost wrth sefydlu trwydded ond rhoddodd flaenoriaeth i atal trosedd ac anhrefn.

Yn dilyn sylwadau'r heddlu, gofynnodd Mr. Hill ai'r bwriad oedd y byddai teledu cylch cyfyng yn edrych dros faes parcio'r safle a'r bobl sy'n gadael y digwyddiad. Mewn ymateb, dywedodd cynrychiolydd yr heddlu na fyddai, o'i safbwynt, yn cynnwys y maes parcio, dim ond y manau trwyddedadwy o leiaf, gan gynnwys y pwyntiau mynediad a gadael ac ar y manau gwerthu alcohol. Fodd bynnag, byddai unrhyw adroddiadau o drosedd neu anhrefn mewn ardaloedd eraill yn destun ymchwiliad priodol.

Heb unrhyw gwestiynau pellach i gynrychiolydd yr heddlu, gwahoddodd y cadeirydd Mr. Hill, fel y person arall oedd yn bresennol, i wneud unrhyw sylwadau pellach yn ymhelaethu ar y rhai a wnaed eisoes. Dywedodd Mr. Hill, er bod y gŵyn ynghylch digwyddiad sinema haf 2022 wedi'i thrin yn dda iawn, y cafwyd problemau yn ymwneud â digwyddiad y flwyddyn flaenorol, ond nid oedd preswylwyr yn gwybod beth oedd y broses gwyno gywir.

Eglurodd Mr. Hill fod prif faterion y trigolion yn ymwneud â materion sŵn a brofwyd yn flaenorol, aflonyddwch ar ôl digwyddiadau, digwyddiadau a ddaeth i ben yn hwyrach yn y nos, a'r gwerthiant arfaethedig o alcohol, ond nid oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r digwyddiad Calan Gaeaf teuluol, y canfuwyd ei fod wedi cael ei redeg yn dda yn 2021.

Wedi hynny, diolchodd y cadeirydd i Mr. Hill am ddod â phryderon y trigolion i sylw'r pwyllgor a rhoddodd gyfle i bob parti grynhoi neu ychwanegu at eu sylwadau, ac i bwyntiau o eglurhad gael eu codi gan aelodau'r is-bwyllgor.

Mewn ymateb i bwynt a wnaed gan y Cynghorydd Norman, eglurodd yr ymgeisydd a'r Swyddog Trwyddedu y gallai mangre drwyddedig fod â nifer o ddeiliaid trwydded bersonol â chyfrifoldeb, i gynorthwyo gydag un ar y safle bob amser wrth werthu alcohol. Ychwanegodd cynrychiolydd Heddlu De Cymru y gallai cyflenwyr allanol sy'n gysylltiedig â digwyddiad hefyd ddarparu deiliad trwydded bersonol y safle.

Yna, gwnaeth cynrychiolydd yr heddlu grynhoi ei sylwadau fel a ganlyn:

- Nid oedd safbwynt yr heddlu yn wrthwynebiad llwyr, ond hoffent weld eu hamodau arfaethedig yn cael eu cynnwys ar y drwydded.
- Roedd teledu cylch cyfyng yn hanfodol i atal trosedd ac anhrefn yn ogystal ag ar gyfer cynnal ymchwiliadau yn dilyn troseddau.

- Roedd Deddf ‘Martyn’ i fod i gael ei chyflwyno yn haf 2023, a byddai hyn yn gosod dyletswydd bellach ar awdurdodau lleol i ddarparu teledu cylch cyfyng ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

Yn dilyn hyn, datgysylltodd yr ymgeisydd, y Swyddog Trwyddedu, yr awdurdod cyfrifol, a'r person arall a oedd yn bresennol â'r gwrandawriad fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democraataidd a Chraffu, a bu'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn trafod y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – BOD y cais yn cael ei ganiatáu gydag amodau diwygiedig sy'n gyson â'r atodlen weithredu mewn modd a ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Rhesymau dros y penderfyniad

Mae'r amodau hynny i gynnwys:

Amodau 2, 3, 5, 6, 7, 8 fel yr amlinellwyd yn y cynrychiolaethau gan Heddlu De Cymru dyddiedig 16 Medi, 2022.

Bydd teledu cylch cyfyng yn gweithredu ar bob pwynt mynediad ac allan i'r eiddo gyda theledu cylch cyfyng yn y man gwerthu alcohol. Dylid cadw delweddau am o leiaf 31 diwrnod a'u cyflwyno i swyddog awdurdodedig o Heddlu De Cymru o fewn amser rhesymol.

Wrth ddod i'w benderfyniad heddiw yr oedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ac wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â'r Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Rhaid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd gan yr Ymgeisydd unrhyw amheuaeth ynghylch ei hawliau cyfreithiol a/neu ei gyfrifoldebau dylai geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.